Annwyl rieni,

Yn dilyn trafodaethau gyda nifer ohonoch dros y deuddydd diwethaf, mae'n amlwg bod y dewis o anfon eich plant yn ôl i'r ysgol yn un sydd yn pwyso'n drom ar eich meddyliau. Rydyn ni fel ysgol yn deall yn iawn eich pryderon a'n gofidiau ac yn parchu eich penderfyniad chi naill ffordd neu'r llall.

Fe fydd yn braf iawn i weld y plant yn ôl am gyfnodau yn yr ysgol, i gwrdd â'u ffrindiau a'r staff. Mae'n siŵr taw sesiynau bugeiliol fydd y cyfnodau yma, gyda'r ffocws ar les y plant yn hytrach na bwrw ati gyda'r gwersi. Fy mwriad yw ceisio cadw blynyddoedd gyda'i gilydd mewn grwpiau bach ac, fel soniais eisoes, i geisio sicrhau bod teuluoedd yn dod mewn ar yr un sesiwn. Ar hyn o bryd hoffwn gynnig diwrnodau yn hytrach na hanner diwrnod, er mwyn ei wneud yn fwy cyfleus i chi fel rhieni. Hoffwn hefyd gadw at yr un diwrnod / hanner diwrnod yn wythnosol, er lles y plant, chi a'r staff.

Er hyn, tan fydd y niferoedd sydd am ddod nôl atom wedi ei gadarnhau, dwi ddim yn sicr o sut mae hyn yn mynd i edrych. Mor gynted a bydd gen i amserlen, fe fyddaf yn ei rannu gyda chi.

Hoffwn eich sicrhau y byddwn ni fel ysgol yn dilyn yr holl gyfarwyddid iechyd a diogelwch mae Cyngor Sir Ceredigion yn argymell.

Atodaf er gwybodaeth ichi'r ddogfen wyddonol y cyfeiriwyd ati gan y Gweinidog Addysg.

Fel arfer, mae croeso ichi gysylltu trwy e-bost neu ffonio.

Cofion cynnes,

Jan Jones

Dear parents,

Following discussions with many of you over the past two days, it is clear that the choice of sending your children back to school is one that weighs heavily on your minds. We as a school fully understand your concerns and dilemmas and respect your decision either way.

It will be lovely to see the children back for at school for weekly sessions, to meet their friends and see the staff. These sessions are likely to be pastoral sessions, with the focus being on the welfare of the children rather than getting on with lessons. My intention is to try to keep year groups together in small groups and, as I mentioned already, to try to ensure families come in on the same session. Currently, my preference is to offer days rather than half days, to make it more convenient for you as parents. I would also like to stick to the same day / half day weekly, for the benefit of the children, you and the staff.

However, until I receive the number of children returning to school, it's very difficult to see what this will look like. As soon as I have a timetable in place, I'll share it with you.

I would also like to assure you that as a school we will follow all the health and safety guidelines recommended by Ceredigion County Council.

For your information, I have attached the scientific document that was referred to by the Education Minister on Wednesday.

As always, you are welcome to contact by email or phone if you have any queries.

Warm regards,

Jan Jones